


Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Ethel Jones, Beidiog Uchaf (Llansannan). Diolchwn am ei bywyd, ac am bob cyfraniad a wnaeth i gyfoethogi bywyd eraill. Diolchwn hefyd am y gofal arbennig a gafodd gan ei theulu, yn Ysbyty Glan Clwyd a thra y bu yn Hosbis San Cyndeyrn. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Eric, Arwel, Emyr, Rhys a Dewi, a gweddill y teulu, gan weddio y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn y brofedigaeth hon eto ac y byddant yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu yn gysur iddynt.
- Anfonwn ein cofion cynhesaf hefyd at Menna Owen (Cefn Meiriadog) sydd yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd ond heb fod cystal ei hiechyd yr wythnos hon. Yno hefyd y mae Doreen Evans (Tanyfron), er yn gobeithio cael dod adref ddechrau'r wythnos wedi cyfnod go faith yn yr ysbyty. Gobeithio y bydd y ddwy ohonynt - ynghyd â Harold Lloyd (Tanyfron) sy'n parhau yn Ysbyty Bae Colwyn, a Llinos Howatson (Llanefydd) a fu yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth y penwythnos diwethaf - yn cael adferiad iechyd buan iawn. Cyflwynwn hwy oll yn ein gweddïau i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn parhau i gryfhau bob dydd, ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd.

Dathlu trwy Ddosbarthu



Cofiwch bod copïau o Efengyl Marc ar gael i'w dosbarthu. Beth am roi rhai fel cardiau Nadolig i'n ffrindiau a'n teulu? £1 yr un yw'r gost. Dydy'n nhw fawr drytach na thrymach na cherdyn Nadolig a byddant yn cario neges y Nadolig am hanes a phwrpas dyfodiad Crist yn llawer mwy effeithiol.

Cysylltwch hefo Aneurin, Rhodri neu Mair i gael copïau.

I ddod

- **Noson Creffttau a Nwyddau Nadolig** yn Ffestri Llansannan nos Iau, Rhagfyr 8fed am 7.30.
- **Oedfa Garolau i'r Fro** yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Sul, Rhagfyr 18fed am 6.00 gydag Andras Iago yn arwain yr addoliad.
- **Swper Nadolig 'Adnabod'** nos Fercher, Rhagfyr 28ain. Os ydach chi'n perthyn i unrhyw un o'r grwpiau 'Adnabod', cadwch y dyddiad yn rhydd! Mwy o fanylion i ddilyn.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Tachwedd 2011

Cysylltwch â Hafwen (813445) cyn nos Fawrth gyda'ch ceisiadau gweddi, os gwelwch yn dda.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd! Gweddiwn am fendith arbennig heddiw wrth i ni groesawu y rhai sydd am rannu Gair Duw hefo ni a'r fendith o gael calonnau agored i glywed y gair.

Rhannodd Eryl a Celfyn eu hargraffiadau o gyfres y 'saith arwydd' nos Sul diwethaf, a chawsom gyfle i edrych yn ôl dros y gyfres. Diolch iddynt hwy a phawb arall sydd wedi cyfrannu at yr oedfaon nos Sul. Cofiwch eu bod wedi eu recordio ac ar gael i unrhyw un, dim ond i chi fynd i'r wefan neu gysylltu hefo ni!

Roeddwn yn falch iawn o gael adborth ac o glywed sut yr oedd y Gair a'r Ysbryd wedi dylanwadu arnom fel cynulleidfa. Da oedd clywed am yr hyn y mae Duw yn ei wneud ym mywydau ein gilydd - mae'n galonddid ac yn her gyson. Gofynnodd Iesu am ymateb ac adborth hefyd pan ofynnodd i'w ddisgyblion "Pwy mae pobl yn ei ddweud ydw i?" (Mathew 16: 13-20 a Marc 8: 27) Prif nod y gyfres 'saith arwydd' a'r gyfres flaenorol y saith dywediad 'Myfi Yw' o Efengyl Ioan oedd dod a ni i well adnabyddiaeth o 'pwy' oedd Iesu - yn hytrach, pwy yw Iesu!

Mae ateb y disgyblion yn ddiddorol - sef dweud wrth Iesu fod 'pobl' yn meddwl amdano fel proffwyd - rhywun tebyg i Ioan Fedyddiwr neu Elias neu un o'r proffwydi eraill. Fel yn achos y gêm ddarts wythnos diwetha - roeddent yn hitio'r bwrdd ond ddim wedi taro'r 'bull'! Mae gweld tebygrwydd rhwng Crist ag arweinwyr crefyddol eraill yn gam i'r cyfeiriad iawn ond ymhell o fod yn ddigonol.

Gofynnodd Iesu yr ail-dro i'r disgyblion - 'Pwy, meddwch chi, ydwyf i?' Dyma'r cwestiwn hanfodol. Dyma pam yr ydym wedi gosod yr ateb i'r cwestiwn yma yng nghanol ein nod fel Bro ac yn ein bywydau personol - yn wir dyma yw holl nod bywyd y Cristion! Dod i adnabod Iesu! Ac ynddo Ef, cael adnabod Duw!

Ateb brwdfrydig Pedr i'r ail gwestiwn yma gan Iesu oedd - 'Ti yw'r Meseia, Mab y Duw byw!' Dyma daro'r 'bull' go iawn. Dyma beth yw symud y gorchudd, dyma beth yw cael datguddiad Duw!

Croeso arbennig i'r Parch John Robinson atom heno i agor cyfres newydd sydd yn mynd i'n harwain at y Nadolig hefo'n gilydd. Cyfres ydi hon ar 'Enwau Iesu yn yr Hen Destament' - ac mae nifer mawr ohonynt! Mae John am agor ar y rhai sydd yn Esea pennod 9. Rhyfeddod ydi fel y cyflawnodd Iesu - yn ei berson a'i waith - yr holl broffwydoliaethau amdano a'r holl ddisgwyliadau a oedd gan Dduw arno ac a hysbyswyd i'r byd trwy'r proffwydi. Yng Nghrist felly, nid proffwyd sydd wedi dod i'r byd ond Duw ei hun, yn ei Fab, yn cyflawni'r holl broffwydoliaethau! Wele, cawsom y Meseia!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa Arbennig i'r Fro** yng nghwmni y Parch. John Robinson yn Llansannan am 6.00. Aneurin fydd yn arwain yr oedfa, a chawn gyfle i glywed John yn canu ac yn pregethu, ac i wrando ar ran o'r 'Meseia' yn ystod yr oedfa. Bydd paned i bawb i ddilyn.
- Llun • **Adnabod Be Nesa?** yn y Ffestri yn Llansannan am 7.30 i'r criw gafodd eu derbyn yn aelodau yn ddiweddar a'r ieuencid 15+.
- **Cyfarfod i Flaenoriaid yr Ofalaeth** yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- Cyfarfod o **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30 gyda'r 'Snappy Pastor'. £3, yn cynnwys bwffe. Croeso i'r dynion hefyd.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Dod i Adnabod – Grŵp Rhodri** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- **Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.
- Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yn Bow Street. Darlithoedd yn cychwyn yn brydlon am 10.30 ac yn gorffen am 4.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **oedfa arbennig i ddathlu Sul y Beibl yn Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, a bydd cynrychiolaeth o bob eglwys yn darllen ychydig o gyhoeddiad diweddar Cymdeithas y Beibl o Efengyl Marc. Bydd Aneurin yn agor y gair a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 ac Ysgol Sul am 11.00. Yng Nghefn Meiriadog, bydd gwasanaeth Sul y Beibl am 10.30 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch Dewi Tudur yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Mawrth Cynhelir cyfarfod o Bwyllgor yr Ysgol Sul yn y Granar am 8.30 i drefnu ar gyfer dathlu'r Nadolig.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa undebol Sul y Beibl am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Dewi Tudur yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00 a bydd ymarfer ar gyfer y gwasanaeth Nadolig y plant yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 11.15.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.